| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIADD** |
| **DYDDIAD** | **11 Medi 2012** |
| **PWNC** | **Adroddiadau Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r gofynion a thrafod sut y mae Gwynedd am ymdrin â'r gofyn.** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Dewi Owen, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**<br>**Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. Beth yw'r gofynion?

1.1 Mae Mesur Llywodraeth Lleol Cymru (2011) yn nodi:-

*"(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau—*

*(a) i bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,*

*(b) i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, ac*

*(c) i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.*

*(2) Caiff y trefniadau gynnwys amodau o ran cynnwys adroddiad y mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni gan y person sydd yn ei lunio.*

*(3) Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau.*

*(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru."*

1.2 Bwriad yr Adroddiad Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r cyhoedd. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol yn nodi y bydd yr adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu aelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt. Mae hefyd wedi nodi y bydd yn rhydd i bob awdurdod lleol ddewis eu fformat eu hunain ar gyfer yr adroddiadau.

1.3 Yn ychwanegol i'r Mesur, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi dogfen arweiniol i fod o gymorth i awdurdodau lleol wrth ymgorffori'r ddeddf, sef "*Canllawiau Statudol ar Fesur Llywodraeth Lleol 2011 – Mehefin 2012*"

1.4 Nid oes arweiniad pellach wedi ei gynnwys yn y ddogfen ‘Adroddiadau Aelodau’, ond mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bod yn disgwyl rhyddhau canllawiau pellach yn dilyn gwyliau’r haf.

1.5 Ar hyn o bryd felly, anoeth fyddai bwrw ymlaen gyda datblygiadau cadarn i ymateb i’r gofyn yma. Fodd bynnag, argymhellir fod y pwyllgor yn cysylltu gyda’r holl aelodau i godi ymwybyddiaeth o’r angen bras, gan awgrymu fod pawb yn cadw cofnod o’r prif weithgareddau fel nad yw cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn dod yn annisgwyl erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**2. Beth mae awdurdodau eraill wedi wneud hyd yma?**

2.1 Mae ‘Adroddiadau Blynyddol’ gan aelodau etholedig wedi bodoli yn Lloegr ers rhai blynyddol, ac mae dehongliad gwahanol gan wahanol awdurdodau o beth ddylid ei gynnwys ac ar pa fformat y dylid gwneud hynny. Mae’n amrywio o roi dalen lan i aelodau etholedig i ysgrifennu unrhyw beth y maent yn ei ystyried i fod o ddiddordeb i’r cyhoedd am eu gwaith. Yn yr achosion o ddalen lân mae rhai aelodau etholedig wedi defnyddio’r adroddiadau ar gyfer propoganda gwleidyddol ac o ddifrio pleidiau gwleidyddol eraill. Yn sgil hynny, mae nifer o awdurdodau wedi ffafrio mwy o strwythur i’r adroddiadau.

2.2 Mae’n ddefnyddiol bob amser i chwilio am ymarfer da, ac ystyried datblygiadau sy’n digwydd yn gyfredol gan awdurdodau eraill. Yng Nghymru, Penybont-ar-ogwr yw’r awdurdod sydd wedi buddsoddi'r amser mwyaf ar ymchwil a datblygu trefniadau ar hyn o bryd.

2.3 Mae Penybont-ar-Ogwr wedi datblygu model sydd yn cyd-fynd â’r canllawiau isod;

- Dogfen ffeithiol, ddiddorol ac anwleidyddol
- Dwy dudalen o faint ar y mwyaf
- Adrodd ar 5 maes penodol
    - Rôl a chyfrifoldeb
    - Digwyddiadau o fewn yr etholaeth
    - Mentergarwch a gweithgareddau arbennig
    - Dysgu a Datblygu
    - Digwyddiadau a Materion eraill

2.4 Gellir gweld dogfen esiampl gan Benybont-ar-Ogwr yn **Atodiad A**.

**3. Ystyriaethau i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

3.1 Bydd angen i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y ffactorau isod:

A. Fformat yr adroddiad - Bydd yn rhaid ystyried a yw’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn dymuno datblygu templed a chanllawiau penodol i aelodau etholedig eu dilyn ynteu adael i bob aelod ddatblygu eu hadroddiad eu hunain.

i. Datblygu Templed –

- ✓ Unffurfiaeth o ran yr adroddiad

- ✓ Haws i'r cyhoedd allu cymharu rhwng gwahanol wardiau
- ✓ Cadw'n gryno
- ✓ Dim cyfleon i wawdio'n wleidyddol
- Gallu bod yn rhwystredig i aelod oherwydd ei f(b)od yn cael ei gyfyngu

ii Rhydd

- ✓ Rhyddid i bob aelod gynnwys y pethau mae'n ystyried yn bwysig
- ✓ Cyfle i ymhelaethu ar ambell 'stori' bwysig i'r etholaeth
- ✓ Cyfle i aelod roi ei stamp ei hun ar yr adroddiad
- Risg i aelodau ddefnyddio'r adroddiad i ddifrïo pleidiau gwleidyddol eraill

B - Yn ddibynnol ar yr uchod, bydd yn angenrheidiol ystyried y gefnogaeth ar gyfer aelodau i ffurfio'r adroddiadau hyn. Gellir gweld o ddogfen esiampl Penybont-ar-Ogwr fod rhywfaint o gymorth mewn darparu data ar gael gan yr awdurdod.

Materion y bydd angen ystyried o ran cefnogaeth

- ✓ Faint o gefnogaeth a chan bwy
- ✓ Darparu data
- ✓ Cefnogaeth cyfieithu
- ✓ Cefnogaeth lleoli'r adroddiadau ar y we
- ✓ Cefnogaeth llunio'r adroddiadau

## 4. Argymhellion

4.1 Cyn symud ymlaen ymhellach gyda'r gwaith, argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnig arweiniad cychwynnol ar natur a fformat yr adroddiad er mwyn cwblhau gwaith pellach arno a chymeradwyo'r camau gweithredu a nodir isod

- ➢ Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gysylltu gyda'i gyd-aelodau i godi ymwybyddiaeth yr aelodau o'r disgwyliad fydd yn dod arnynt, gan awgrymu fod pawb yn cadw cofnod o'r prif weithgareddau.

- ➢ Y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i lunio adroddiad pellach yn argymell y ffordd ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn. Bydd yr argymhellion yn a) ymateb i'r ystyriaethau a nodir yn (3) uchod, (b) dilyn / ymateb i'r canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru, ac (c) yn seiliedig ar waith ymchwil pellach i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru yn gyfredol.

# Sampl - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Dyma adroddiad gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau dros y flwyddyn yn diweddu ar 30 Ebrill 2012. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall.

*Cyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau.*

*Mae Cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu cyn lleied o wybodaeth ac a ddymunant, fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i'r fformat hwn o* ***2 dudalen (ar y mwyaf).***

**Cynghorydd:U.N.Arall** **Plaid: Y Blaid Ganol**

**Ward: Trefain**

## Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn eistedd ar y pwyllgorau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Fforwm Cyngor Tref a Chymuned | Presenoldeb X/X□ |
| Pwyllgor Craffu a Throsolwg a Llywodraethu a Diogelwch Cymunedol | Presenoldeb X/X□ |
| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Lles | Presenoldeb X/X□ |
| Pwyllgor Craffu a Throsolwg a Gwella ac Adnoddau Corfforaethol | Presenoldeb X/X□ |
| Rwyf yn eistedd ar y pwyllgorau allanol a ganlyn: | Presenoldeb X/X□ |
| Ymddiriedolaeth Neuadd y Dref, Pen-y-bont | Presenoldeb X/X□ |
| Panel Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol | Presenoldeb X/X□ |
| Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Trefain | Presenoldeb X/X□ |
| Cyngor Cymuned Llanfaes | Presenoldeb X/X□ |
| Pwyllgor Rheoli Coleg Cymunedol Trefain | Presenoldeb X/X□ |
| Grŵp Rheoli Sbwriel Trefain | Presenoldeb X/X□ |
| Grŵp Llywio Cyngor ar Bopeth Pen-y-bont | Presenoldeb X/X* |

† ffigyrau a ddarparwyd gan y Cynghorydd † ffigyrau a ddarparwyd gan CBS Pen-y-bont

## Adran 2: Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Byddaf yn cynnal cymorthfeydd yn yr etholaeth amser cinio ddydd Gwener rhwng 1pm a 3pm yng Nghanolfan Gymunedol Trefain.

Mynychu cyfarfodydd PACT lleol yn rheolaidd ac rwyf yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw gwynion neu gwestiynau yn amserol.

Byddaf yn paratoi a danfon cylchlythyr bob chwarter i bob cyfeiriad yn fy etholaeth - bydd y cylchlythyr yn seiliedig ar y testunau rwyf i yn credu bod fy etholwyr yn dymuno cael gwybodaeth yn eu cylch.

Byddaf yn cefnogi unigolion sy'n cysylltu â mi ar ystod eang o faterion ac rwyf wedi gweithredu fel eiriolwr mewn materion Cynllunio, anghydfod mewn cymdogaethau yn gysylltiedig â'r Heddlu a Chyngor Pen-y-bont, Asiantaeth yr Amgylchedd, materion Priffyrdd a cheisiadau am Wasanaethau Cymdeithasol.

Byddaf yn derbyn nifer fawr o alwadau ffôn gan breswylwyr yn gofyn am gyngor a chymorth ar ystod o faterion personol ac rwyf wastad yn fodlon gwrando ar eu pryderon a chynnig cefnogaeth briodol.

Rwyf wedi rhoi sgwrs yng nghyfarfod Cyngor Tref a Chymuned Trefain ar 'Fy rôl fel Cynghorydd' ac rwyf wedi cymryd rhan yn 'Beth yw eich Barn' fel aelod o'r Panel.

## Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Drwy gyfathrebu â Phwyllgor Trafnidiaeth Bro Morgannwg bûm yn llwyddiannus yn cyflwyno gwasanaeth

bws newydd rhwng Stryd Gorfforaethol yn Nhrefain a Gorsaf Fysiau Ganolog Pen-y-bont. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg pedair gwaith bob bore yn ystod yr wythnos a gwasanaeth yr un mor aml yn fuan gyda'r nos, gan sicrhau trafnidiaeth gyhoeddus i Ben-y-bont ar gyfer y preswylwyr.
Gofynnwyd i mi drefnu arolwg ynglŷn â'r posibilrwydd o gyflwyno system traffig unffordd ar gyfer Ffordd Caerdydd a'r Sgwâr yn Nhrefain. Nid oedd yr ymateb i'r arolwg yn eang o ran y nifer o blaid y bwriad ac mae wedi'i roi o'r neilltu erbyn hyn. Ysgrifennais i bob un o'r preswylwyr a ymatebodd i'r arolwg yn datgan fy ngwerthfawrogiad am eu hymdrechion ac yn amlinellu'r canlyniadau.
Gyda chymorth pobl ifanc ac Adran Hamdden CBS Pen-y-bont, rwyf wedi cefnogi datblygu'r parth sgrialu newydd ym Mharc Trefain rhwng mis Mai a mis Medi bob blwyddyn.
Yn ogystal, rwyf wedi cefnogi atgyweirio'r Lawnt Fowlio yng Nghanolfan Gymunedol Trefain ac erbyn hyn mae mwy na 120 o aelodau selog o Glwb Bowlio Trefain. Bwriad y clwb yw agor adran iau yn ystod misoedd yr haf eleni – felly dylai etholwyr gadw llygad barcud am fwy o newyddion ar y pwnc hwn yn y wasg a chyhoeddiadau lleol.

## Adran 4: Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau Dysgu a Datblygu a ganlyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:
Hyfforddiant Rhiantu Corfforaethol
Hyfforddiant Asesu Risg ar gyfer y Gyfadran Plant
Hyfforddiant 'Yr economi gyda'r nos'
TGCh – Hyfforddiant Rhyngrwyd a Mewnrwyd
Hyfforddiant Rheoli Prosiect a Rhaglen
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau
Hyfforddiant Dehongli a Dadansoddi'r Gyllideb

Rwyf wedi mynychu'r cyfarfodydd briffio cyn y Cyngor fel a ganlyn:
Ymweliadau Rota i Sefydliadau Gofal Preswyl
Gofal a Thrwsio Pen-y-bont
Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadlanciau

## Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Mae gan breswylwyr Trefain bryderon difrifol ynghylch y tir cyfagos i Barc Trefain am eu bod yn ofni y caiff ei ddatblygu yn Barc Manwerthu. Rwyf wedi cefnogi preswylwyr lleol mewn protest yn erbyn y fath ddatblygiad a chredaf y byddai'n newid nodweddion allweddol y gymuned leol a pheri ardrawiad sylweddol ar y problemau traffig presennol yn yr ardal. Rwyf wedi mynychu dau ymchwiliad apêl a byddaf yn parhau i wrthwynebu cynlluniau o'r fath am ddatblygiad fel hyn.

Rwyf yn gefnogwr cryf o'r grŵp gweithredu 'Cadwch ein Meysydd Chwarae' ac rwyf wedi datgan fy ngwrthwynebiad yn gyhoeddus i werthiant rhan o Feysydd Chwarae Ysgol Trefain yn ddiweddar ar gyfer Stad Breswyl. Tra bydd y gwerthiant yn golygu cyfleoedd am nifer fechan o dai fforddiadwy, credaf y byddai safleoedd eraill lleol wedi bod yn ddewis gwell a fyddai wedi rhoi cyfle i ddatblygu tir llwyd.

Rwyf yn bwriadu cefnogi Cyngor Cymuned Trefain yn ei ymdrechion i godi arian ar gyfer goleuadau Nadolig newydd ar gyfer y dref eleni. Byddaf yn ymweld â busnesau lleol am gyfraniadau bychain i'r achos teilwng hwn yn ystod y misoedd nesaf a bydd y goleuadau yn rhoi llewych croesawgar ar nosweithiau oer y gaeaf.

**Llofnod y Cynghorydd:** **Dyddiad:**